Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Plant â phrofiad o fod mewn gofal
## Papur briffio

Ebrill 2024



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

X: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Plant â phrofiad o fod mewn gofal

## Papur briffio

Ebrill 2024


**Author:**
Siân Thomas


Mae'r Pwyllgor Craffu ar waith y Prif Weinidog yn cynnal sesiwn ar **26 Ebrill 2024** gyda Vaughan Gething AS, y Prif Weinidog, am blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Mae'r papur briffio hwn yn nodi rhai o'r prif faterion y gall y Pwyllgor roi sylw iddynt.

Trefnwyd y sesiwn graffu hon yn dilyn cyhoeddi dau adroddiad gan bwyllgorau'r Senedd am gefnogaeth i blant â phrofiad o fod mewn gofal:

- Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, sef **Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal**, ac
- Adroddiad y Pwyllgor Deisebau, sef **Cefnogi rhieni sydd wedi bod mewn gofal** (sydd wedi'i grynhoi yn yr erthygl hon gan Ymchwil y Senedd: **Diwygio radical ar gyfer gwasanaethau i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal**.)

Mae'r papur briffio hwn yn cynnwys gwybodaeth am:

- **Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu**, gan gynnwys: Y Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol; Dileu Elw o ofal plant sy'n derbyn gofal; Edrych ar Ddiwygio Radical o ran gwasanaethau gofal i blant a phobl ifanc.
- **Nifer y plant mewn gofal a'u canlyniadau hirdymor**
- **Rôl Llywodraeth Cymru fel rhiant a nain/taid corfforaethol**
- **Heriau a phwysau ariannol sy'n wynebu'r gweithlu gofal cymdeithasol plant.**

Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am **Dlodi Plant.**

Mae Ymchwil y Senedd hefyd wedi cyhoeddi **Briff Ystadegol ar Blant sydd â phrofiad o ofal 2024**.

# Cynnwys

**1. Plant â phrofiad o fod mewn gofal: Y Cyd-destun .................. 1**

1.1. Ymrwymiad personol y cyn-Brif Weinidog ................ 1

1.2. Uwchgynadleddau gyda phlant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal ................ 2

1.3. Craffu yn y Senedd ................ 3

**2. Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu .................. 5**

2.1. Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu: Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol ................ 5

2.2. Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu: dileu elw o ofal plant ......... 7

2.3. Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu: archwilio diwygio radical ................ 9

**3. Cyfraddau gofal a chanlyniadau i blant .................. 12**

3.1. Cyfraddau gofal ................ 12

3.2. Canlyniadau hirdymor i blant â phrofiad o fod mewn gofal ...... 16

**4. Y rhiant a'r naid/taid corfforaethol .................. 20**

4.1. "A yw hyn yn ddigon da i'm mhlentyn fy hun?" ................ 20

4.2. Rhoi cartref sefydlog i blant ................ 20

4.3. Lleoliadau anghyfreithlon a 'Gorchmynion Amddifadu o Ryddid' ................ 22

4.4. Cefnogi plant yn yr ysgol ................ 23

4.5. Iechyd meddwl plant ....24

4.6. Bod yn ‘nain/taid corfforaethol’ ....24

**5. Heriau’r gweithlu, pwysau ariannol a data ....25**

5.1. Y gweithlu ....25

5.2. Pwysau ariannol ar wasanaethau plant ....26

5.3. Data ....28

**6. Tlodi plant ....29**

6.1. Ystadegau tlodi plant ....29

6.2. Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru ....30

6.3. Targedau a monitro ....31

# 1. Plant â phrofiad o fod mewn gofal: Y Cyd-destun

Mae mwy nag un plentyn ym mhob cant yng Nghymru bellach mewn gofal, a'r 'wladwriaeth' yn rhiant iddynt. Mae niferoedd wedi cynyddu'n sylweddol: ar 31 Mawrth 2023, roedd **7,210 o blant** yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol yng Nghymru, sef cynnydd o 26% ers 2014. Cynyddodd **y gyfradd ofal yng Nghymru** 83% rhwng 2003 a 2022.

Mae ein cyhoeddiad: **Plant sydd â phrofiad o ofal: Briff Ystadegol 2024**, newydd gael ei ddiweddaru, ac yn nodi ystod eang o wybodaeth arall.

**Terminoleg**: Er bod y term 'plant â phrofiad o fod mewn gofal' yn cael ei ddefnyddio'n eang, mae ystadegau presennol Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at 'blant sy'n derbyn gofal' o hyd. Mae gan y term hwn ystyr gyfreithiol ac mae'n cyfeirio at blant o dan 18 oed sy'n 'derbyn gofal' gan awdurdodau lleol. Felly, mae'r briff hwn yn defnyddio 'plant sy'n derbyn gofal' wrth gyfeirio at y data hwnnw, ac yn defnyddio 'plant â phrofiad o fod mewn gofal' fel arall.

**Cyfrifoldeb Gweinidogol**: Fel y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Vaughan Gething oedd â chyfrifoldeb cyffredinol dros blant â phrofiad o fod mewn gofal rhwng 2016 a 2021. Julie Morgan AS oedd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol o 2018, a chafodd ei disodli'n ddiweddar gan Dawn Bowden AS.

## 1.1. Ymrwymiad personol y cyn-Brif Weinidog

Nid yw Vaughan Gething yn cyfeirio at blant â phrofiad o fod mewn gofal yn ei faniffesto. Yn 2018, roedd Mark Drakeford wedi nodi ymrwymiad personol i wella profiadau plant o fod mewn gofal ac roedd ei **Faniffesto ar gyfer arweinyddiaeth y Blaid Lafur yn nodi cynigion penodol iawn bryd hynny**:

**ARGYMHELLION**

**Dw i'n credu mai dyma un o'r nifer fach o feysydd lle mae angen i Lywodraeth Cymru osod targedau newydd, gorfodol, i sicrhau bod y broblem wir yn cael ei thaclo a'i datrys.**

**Bydd y rhain yn cynnwys:**

1. **Targed i bob awdurdod lleol i leihau'r nifer o blant o'r ardal honno sy'n derbyn gofal y tu allan i Gymru.**

2. **Targed i bob awdurdod lleol i leihau'r nifer o blant o'r ardal honno sy'n derbyn gofal y tu allan i'w sir eu hunain.**
3. **Targed i bob awdurdod lleol i leihau'r nifer o blant o'r ardal honno sy'n cael eu cymryd o ofal eu teuluoedd, gan gynnwys gofal gan berthnasau.**
4. **Targed penodol i bob awdurdod lleol i leihau'r nifer o blant sy'n cael eu cymryd i ffwrdd o'u teuluoedd ar y sail bod anabledd dysgu gan y rhieni.**

Yn fwy diweddar yn ystod **Cyfarfod Llawn** ym mis Mawrth 2024, cyfeiriodd Jane Dodds AS, Cadeirydd y **Grŵp Trawsbleidiol ar Blant yn Ein Gofal**: at Mark Drakeford, y Prif Weinidog ar y pryd, gan ddweud:

> "Mae llawer o hyrwyddwyr yma yn y Siambr ac ar draws ein holl bleidiau gwleidyddol dros blant â phrofiad o fod mewn gofal […]. Ond, Prif Weinidog, os caf i ddweud, un o'r hyrwyddwyr mwyaf yma yn y Siambr yw chi."

## 1.2. Uwchgynadleddau gyda phlant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal

Cynhaliodd Mark Drakeford AS gyfres o '**Uwchgynadleddau Profiad o Ofal**' rhyngddo ef fel y Prif Weinidog ar y pryd, Gweinidogion y Cabinet a rhai plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal. Gan gyfeirio at y rhai sy'n hyrwyddo'r achos dros blant â phrofiad o fod mewn gofal, **dywedodd** Mark Drakeford:

> … hyrwyddwyr mwyaf oll yw'r bobl ifanc hynny eu hunain. Roedden nhw'n hollol wych yn yr uwchgynhadledd—mor rhugl, mor graff, mor benderfynol o wneud eu cyfraniad at ddyfodol gwahanol iddyn nhw eu hunain, ond hefyd gwahanol fath o wasanaeth i'r bobl ifanc eraill hynny yn y system. Roedden nhw'n gwbl benderfynol y dylem ni gynyddu eu llais yn y gwasanaeth cyfan. 'Gyda ni, nid ar ein rhan,' medden nhw.

Ac aeth ymlaen i ddweud:

> […]Roedden nhw eisiau'r pethau symlaf. Roedden nhw eisiau sefydlogrwydd, cysondeb, cymorth cynnar, gwasanaethau eiriolaeth i rieni pan fo teuluoedd yn ceisio aros gyda'i gilydd yn hytrach na bod plant yn cael eu cymryd oddi arnyn nhw. Roedden nhw eisiau i ni roi sylw i'r bylchau sydd yno o hyd pan fydd plant yn syrthio rhwng gwasanaethau cymdeithasol, tai, cyfiawnder troseddol, iechyd meddwl, ac, yn anad dim, roedden nhw eisiau i ni fod yn uchelgeisiol ar eu rhan.

Ym mis Mai 2023, llofnododd y Prif Weinidog ar y pryd a chynrychiolwyr pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal **Uwchgynhadledd Diwygio Radical: Datganiad**.

Dywedodd rhai o'r un bobl ifanc hyn hefyd wrth y **Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg** am yr ymrwymiadau yr oeddent am weld Llywodraeth Cymru yn eu cyflawni.

## 1.3. Craffu yn y Senedd

Bu craffu sylweddol ar wasanaethau a chymorth i blant â phrofiad o fod mewn gofal yn ystod y Chweched Senedd hwn. Mae llawer o'r craffu'n canolbwyntio ar wyth ymrwymiad **Rhaglen Lywodraethu** Llywodraeth Cymru yn y maes polisi hwn.

Ym mis Mai 2023, cyhoeddodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd ei adroddiad **Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal**. Roedd hyn yn dilyn adroddiad Pwyllgor Deisebau'r Senedd ynghylch **Cefnogi rhieni sydd wedi bod mewn gofal**. Gallwch ddarllen rhagor am y gwaith craffu gan y Pwyllgorau hynny yn erthygl Ymchwil y Senedd, **Diwygio radical ar gyfer gwasanaethau i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal**.

### Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, "Os nad nawr, pryd?", ar blant â phrofiad o fod mewn gofal

Roedd teitl **adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar ddiwygio radical ar gyfer plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal** yn cyfeirio at y dystiolaeth yr oedd ei Aelodau wedi'i **chlywed yn uniongyrchol** gan ystod eang o blant â phrofiad o fod mewn gofal a rhieni biolegol y cyfarfu â nhw ledled Cymru.

Gan ystyried adroddiadau llywodraeth pwysig a gomisiynwyd gan y llywodraethau priodol yn **Lloegr** a'r **Alban**, roedd ymchwiliad y Pwyllgor yn un eang. Roedd yn ceisio archwilio blaenoriaethau ar gyfer diwygio'n radical y tair agwedd a ganlyn ar y system ofal:

- **Cyn gofal**: Lleihau nifer y plant yn y system ofal yn ddiogel
- **Mewn gofal**: Gwasanaethau a chymorth o ansawdd i blant mewn gofal
- **Ôl-ofal**: Cymorth parhaus pan fydd pobl ifanc yn gadael gofal

Cynhaliodd yr aelodau **gyfres o drafodaethau** gydag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys ymarferwyr a rheolwyr rheng flaen, academyddion a darparwyr gwasanaethau. Clywsant hefyd gan Lywydd y Llys Teulu ynghyd â phrif farnwr Cymru sy'n gyfrifol am benderfynu a yw plant yn mynd i mewn i'r system ofal ai peidio.

Yn ei **adroddiad dilynol**, soniodd y Pwyllgor am 12 maes polisi yr oedd yn dweud bod angen eu diwygio'n radical. Gwnaeth 27 o argymhellion i sbarduno newidiadau brys y mae mawr eu hangen, gan ddod i'r casgliad:

> "Dylai unrhyw un sy'n honni bod y wladwriaeth yn gwneud ei waith rhianta corfforaethol yn dda ystyried a fyddent yn hapus i'w plentyn ei hun gael gofal gan y system honno."

Cafodd sylw yn y cyfryngau ledled y DU: **Major reforms to Welsh care system needed**, a chyfeiriodd at gynnydd 'syfrdanol' yn nifer y plant mewn gofal. Derbyniodd **ymateb** Llywodraeth Cymru bedwar o'r argymhellion yn llawn, gan dderbyn 16 yn rhannol a gwrthod saith.

### "Nid oedd y dystiolaeth a gawsom yn hawdd gwrando arni": Adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar rieni â phrofiad o fod mewn gofal

Mae **adroddiad** y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cyfeirio at "gylch gofal", gan ddweud ei fod wedi'i "arswydo" o ddeall y bydd y wladwriaeth yn cymryd o leiaf un plentyn oddi ar chwarter y bobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal.

Mae hyn yn dilyn craffu manwl ar y mater hwn gan y **Pwyllgor Deisebau**. Cynhaliodd ymchwiliad i'r cymorth sydd ar gael i rieni â phrofiad o fod mewn gofal yn dilyn **deiseb a oedd yn galw am ddechrau** "casglu a chyhoeddi data yn rheolaidd o ran faint o fabanod/plant sy'n dychwelyd at ofal sydd wedi bod mewn gofal ar ddiwedd Lleoliad Rhiant a Phlentyn".

Roedd adroddiad y Pwyllgor yn defnyddio data o astudiaeth. **Wales care leavers and their children placed for adoption**, a ganfu fod mwy na chwarter (27%) y mamau biolegol ac un o bob pump (19%) o'r tadau biolegol a oedd â phlant wedi'u lleoli i'w mabwysiadu yn bobl a oedd wedi gadael gofal eu hunain.

**Daeth** y Pwyllgor i'r casgliad nad oedd y dystiolaeth "yn hawdd gwrando arni", gan gyfeirio at "ragfarn a rhagdybiaeth, a hanesion dirdynnol am unigolion yn ei chael yn anodd adeiladu bywydau gwell iddyn nhw eu hunain a'u hanwyliaid."

# 2. Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu

Mae gwaith craffu'r Senedd yn cynnwys: adroddiad mis Mai 2023 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, **Gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical**

Mae **Rhaglen Lywodraethu** Llywodraeth Cymru yn cynnwys cyfres o ymrwymiadau sy'n berthnasol i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, gan gynnwys i:

- Atal teuluoedd rhag chwalu drwy ariannu gwasanaethau eirioli i rieni y mae eu plant mewn perygl o ddod yn rhan o'r system ofal.
- Darparu cymorth arbenigol ychwanegol i blant ag anghenion cymhleth a allai fod ar gyrion y system ofal.
- Ystyried cyfleoedd radical i ddiwygio'r gwasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac yn gadael gofal.
- Dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal.
- Ariannu gwasanaethau preswyl rhanbarthol i blant ag anghenion cymhleth, gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mor agos at eu cartrefi â phosibl ac yng Nghymru lle bynnag y bo hynny'n ymarferol.
- Cryfhau cyrff cyhoeddus yn eu rôl fel 'rhiant corfforaethol'.
- Treialu dull o ymdrin â'r **Incwm Sylfaenol**.
- Cefnogi ein cynllun Maethu Cymru cenedlaethol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi diweddariadau blynyddol ar gynnydd yn erbyn ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu, a'r diweddaraf yw'r **Adroddiad Blynyddol** a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2023.

## 2.1. Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu: Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol

Mae cynllun peilot Llywodraeth Cymru ar **Incwm Sylfaenol ar gyfer Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal** yn darparu taliad incwm sylfaenol o £1,600 y mis (£1,280 ar ôl treth) i bobl ifanc cymwys â phrofiad o fod mewn gofal, am gyfnod o 24 mis gan ddechrau y mis ar ôl eu pen-blwydd yn 18 oed.

Mae'r cynllun peilot ar waith am 36 mis o fis Gorffennaf 2022, gydag unigolion yn ymuno â'r cynllun ac yn ei adael yn ystod yr amserlen hon yn unol â'u dyddiad geni.

Mae **trosolwg o'r cynllun** yn nodi'r meini prawf cymhwystra, gan nodi y gall person ifanc gymryd rhan yn y cynllun peilot os yw:

- yn gadael gofal ac yn troi'n 18 oed rhwng 1 Gorffennaf 2022 a 30 Mehefin 2023;
- wedi bod yn derbyn gofal awdurdod lleol am gyfnod o 13 wythnos, neu am gyfnodau sy'n dod i gyfanswm o 13 wythnos, a ddechreuodd ar ôl iddo ef neu hi gyrraedd 14 oed, ac a ddaeth i ben ar ôl iddo ef neu hi gyrraedd 16 oed.
- Yn gadael gofal ac yn byw yng Nghymru, neu wedi'i osod y tu allan i Gymru ond yn cael ei gefnogi gan adran gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol yng Nghymru.
- Yn ogystal â'r cymorth ariannol, mae'r cynllun peilot yn cynnig cymorth i bobl ifanc gymwys gyda chyllidebu a rheoli cyllid.
- Dyrannwyd cyfanswm o £20 miliwn yn y lle cyntaf i gyflawni'r tri maen prawf ac **amcangyfrifodd** Llywodraeth Cymru y byddai dros 500 o bobl ifanc yn gymwys. Mae'r ystadegau cyhoeddedig diweddaraf yn dangos bod 635 o bobl ifanc wedi derbyn y taliad incwm sylfaenol ar 31 Gorffennaf 2023.
- Ni wnaeth **adroddiad** y Pwyllgor Plant, Pobl ifanc ac Addysg graffu ar y cynllun peilot yn fanwl. Ni roddodd farn bendant, gan ddweud:

> Mae'r peilot Incwm Sylfaenol yn bolisi beiddgar ac uchelgeisiol Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod rhesymau dros fod yn optimistaidd am y cynllun peilot, a'i effaith hirdymor ar fywydau'r bobl ifanc sy'n gymwys ar ei gyfer. Ond mae'r dystiolaeth yn awgrymu materion o bryder gwirioneddol hefyd. Rhannwyd y pryderon hyn gyda ni gan bobl sy'n gadael gofal a phobl sy'n gweithio o ddydd i ddydd gyda phobl hynod o agored i niwed sy'n gadael gofal. Fe'u rhannwyd â ni yng nghyd-destun trafodaethau ynghylch camddefnyddio sylweddau a throseddu cyfundrefnol. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i beidio â bychanu'r pryderon hynny.

### Gwerthusiad o'r cynllun peilot

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **ddatganiad ysgrifenedig**. pan gyhoeddwyd y **gwerthusiad peilot: adroddiad blynyddol 2023-24** ym mis Chwefror 2024, y gwerthusiad cyntaf ohono. Mae Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant Prifysgol Caerdydd (CASCADE) **yn cynnal y gwerthusiad pedair blynedd hwn** sy'n ceisio:

- "Profi a yw Peilot Incwm Sylfaenol Cymru yn cael effaith ar y canlyniadau a fwriadwyd ac amcangyfrif faint o effaith mae'n ei gael.
- Deall sut a pham y mae Peilot Incwm Sylfaenol Cymru yn gweithio, ar gyfer pwy ac o dan ba amgylchiadau.

- Nodi, mesur a gwerthfawrogi costau a chanlyniadau Peilot Incwm Sylfaenol Cymru i gyfrifo ei gost-effeithiolrwydd."

Mae'r cyflwyniad i adroddiad 2023 i 2024 yn nodi:

> "No other basic income scheme has given regular payments as large as those received by young people involved in the pilot, nor have other basic income schemes been open to a national cohort of care leavers from the age of 18 for two years of payments."

Mae adroddiadau gwerthuso pellach wedi'u trefnu hyd at 2027, gyda chyfradd ymateb o 64% ar gyfer yr arolwg gwerthuso cychwynnol o'r holl dderbynwyr incwm sylfaenol. Gofynnwyd i'r sawl a holwyd am amrywiaeth o bethau, gan gynnwys eu canlyniadau ariannol, tai, addysg/cyflogaeth a llesiant. Nid yw'r gwerthusiad cyntaf hwn eto'n nodi gwybodaeth am brofiad pobl ifanc o'r peilot, gan ddweud:

> Mae'r canfyddiadau cychwynnol hyn yn amlygu natur radical yr ymyrraeth hon a rhai mewnwelediadau cynnar i gymhlethdod ei weithredu gyda grŵp o oedolion ifanc sydd wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol yn wynebu ystod o rwystrau o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol. Mae gwerthuso ei effaith yn cyflwyno nifer o heriau methodolegol, ond nid oes amheuaeth y bydd y canfyddiadau'n cyfrannu at y sail dystiolaeth ar gynlluniau incwm sylfaenol ac anghenion cymorth pobl ifanc â phrofiad o ofal. Mae'r gwerthusiad hwn o'r cynllun peilot Incwm Sylfaenol i Bobl Ifanc sy'n Gadael Gofal yng Nghymru yn gymhleth, yn gynhwysfawr ac yn hir. Bydd adroddiadau pellach ac allbynnau academaidd dros y blynyddoedd nesaf, ac mewn allbynnau yn y dyfodol byddwn yn ailedrych ar y pynciau a'r themâu a drafodir yma.

## 2.2. Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu: dileu elw o ofal plant

Ailddatganodd **y Cytundeb Cydweithio** 2021 rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru ymrwymiad i "ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal".

Ym mis Awst 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar **Newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth sylfaenol: dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal**. Disgwylir y caiff hwn ei gynnwys mewn **Bil Gofal Cymdeithasol** newydd, i'w gyflwyno i'r Senedd yn y dyfodol agos.

Ym mis Mawrth, dywedodd y cyn-Brif Weinidog y byddai Bil Gofal Cymdeithasol **yn cael ei gyflwyno** "yn fuan ar ôl y Pasg"; fodd bynnag, cafodd ei gyflwyniad **ei ohirio yn ddiweddar**.

Rhagwelir y bydd y Bil Gofal Cymdeithasol yn ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n caniatáu i ddarparwyr nid-er-elw yn unig gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) fel gwasanaeth cartref gofal i blant neu wasanaeth maethu. Byddai hyn yn golygu

mai dim ond darparwyr nid-er-elw fyddai'n cael gweithredu yng Nghymru, gyda'r **cynigion ymgynghori** yn dweud bod:

- Rhaid i ddarparwyr newydd sy'n cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru fod â statws nid-er-elw o 1 Ebrill 2026 ymlaen
- Angen i unrhyw ddarparwyr 'er elw' presennol bontio i statws 'nid-er-elw', a chofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru, erbyn 1 Ebrill 2027.

Cyhoeddodd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd y ddogfen **Children's social care market study report** a **Wales summary** yn 2022, gan ddweud bod **gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yng Nghymru yn costio tua £350 miliwn y flwyddyn**, ond nid yw'n amcangyfrif faint o hwnnw sy'n elw. Roedd ei ganfyddiadau fel a ganlyn:

> Overall, our view is that there are significant problems in how the placements market is functioning, particularly in England and Wales. We found that:

- a lack of placements of the right kind, in the right places, means that children are not consistently getting access to care and accommodation that meets their needs;
- the largest private providers of placements are making materially higher profits, and charging materially higher prices, than we would expect if this market were functioning effectively; and
- some of the largest private providers are carrying very high levels of debt, creating a risk that disorderly failure of highly-leveraged firms could disrupt the placements of children in care."

### Cynlluniau ar gyfer newid deddfwriaethol

Ym mis Mehefin 2023, roedd Llywodraeth Cymru yn **amcangyfrif** bod 1880 o blant yng ngofal awdurdodau lleol Cymru wedi'u lleoli mewn lleoliadau annibynnol/ preifat yng Nghymru.

| Wedi'u lleoli gydag asiantaethau maeth annibynnol | Wedi'u lleoli gyda darparwyr preswyl annibynnol | Cyfanswm |
|---|---|---|
| 1,248 | 596 | 1,880 |

Dywed Llywodraeth Cymru **hefyd**:

> A workstream has been established under the Eliminating Profit Programme Board on planning transition for individual children and young people. The workstream will consider the actions needed to support a smooth transition from the current market arrangements to the new not-for-profit arrangements which will come into effect from April 2026.

Mae Llywodraeth Cymru wedi **ymrwymo £68 miliwn** dros dair blynedd i gefnogi'r amcan i ddileu elw preifat o ofal o blant sy'n derbyn gofal. Amlinellir proffil y gwariant hwnnw mewn gwybodaeth a ddarparwyd ar gyfer y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg:

**Dadansoddiad Blynyddol o £68m**

| | |
|---|---|
| **2022/23** | **£13m** |
| **2023/24** | **£26m** |
| **2024/25** | **£29m** |

## 2.3. Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu: archwilio diwygio radical

Un o ymrwymiadau arwyddocaol **Rhaglen Lywodraethu** Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â phlant â phrofiad o fod mewn gofal yw:

> "Ystyried cyfleoedd radical i ddiwygio'r gwasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac yn gadael gofal."


Fodd bynnag, gofynnodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am ragor o fanylion am yr hyn mae hyn yn ei olygu yn ymarferol, ac arweiniodd y diffyg manylion canfyddedig at ei waith craffu a'i adroddiad dilynol: **Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal**. Daeth i'r casgliad a ganlyn:

> Dylai unrhyw un sy'n honni bod y wladwriaeth yn gwneud ei gwaith rhianta corfforaethol yn dda ystyried a fyddent yn hapus i'w plentyn eu hunain gael gofal gan y system honno.

**"Trawsnewid Gwasanaethau Plant"**

Mae Atodiad A i **bapur** Llywodraeth Cymru yn nodi Cylch Gorchwyl ar gyfer: 'Grŵp Cyflawni ar gyfer Trawsnewid Gwasanaethau Plant' a 'Bwrdd Trosolwg Gweinidogol Cymru', gan ddweud:

> Statws y Grŵp Cyflawni ar gyfer Trawsnewid Gwasanaethau Plant yw annog ac arwain y gwaith o gyflawni 8 o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu ar gyfer gwasanaethau plant yn holistaidd, gan sicrhau bod yr ymrwymiadau hynny ar waith ac wedi'u sefydlu erbyn 2026.




## Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol newydd o fis Ebrill 2024

Cyfeiriodd **tystiolaeth ysgrifenedig** Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ym mis Mawrth 2023 at y gwaith o ddatblygu 'Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol ar gyfer Gofal Cymdeithasol Plant'. Cyfeiriodd y papur hwnnw at y gwaith a ddechreuodd ym mis Medi 2022, gan ddweud:

> Fel rhan o'n gwaith i drawsnewid gwasanaethau plant yng Nghymru rydym yn datblygu Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol. Bydd y Fframwaith yn nodi sut rydym yn gweithio yng Nghymru mewn ffordd sy'n seiliedig ar gryfderau er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i'n plant a'n pobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed.
>
> Bydd y Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol yn gymysgedd o ofynion gorfodol ac awgrymiadau ymarfer, sydd wedi'u gwreiddio mewn ymarfer perthynol sy'n seiliedig ar gryfderau. Mae'n rhaid i'r agweddau allweddol ar ymarfer fod yn gyson ledled Cymru os yw pob plentyn a theulu'n mynd i dderbyn gwasanaeth tebyg ar drothwy cyffredin.

Yn fwy diweddar, nodir mai'r chwe safon newydd cyntaf fydd:

- Y safon ymarfer sy'n cynnwys plant;

- Y safon Oedolion y Gellir Ymddiried Ynddynt;
- Llygaid ar y plentyn: y safon Diogelu Plant;
- Y safon plant a phobl ifanc sy'n mynd ar goll;
- Y Safon Gofal Parhaus;
- Y safon llwythi gwaith y gellir ymdopi â nhw.

Mae'n ymddangos bod yr amserlen wreiddiol ar gyfer gweithredu'r safonau hyn yn destun oedi. Ym mis Awst 2023, nododd Llywodraeth Cymru yr **amserlen** ganlynol, gyda'r safonau i fod i gael eu cyflwyno erbyn 'diwedd 2023':




Fodd bynnag, nododd yn ddiweddar y byddai'r chwe safon newydd cyntaf yn cael eu cwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2024, gyda'r lleill yn cael eu cydgynhyrchu erbyn diwedd 2024

### Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth newydd o fis Ebrill 2024

Dylai'r **Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth** newydd fod yn berthnasol i blant â phrofiad o fod mewn gofal hefyd. Cafodd ei **lansio yn swyddogol** 22 Ebrill 2024 fel rhan o **Raglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth** Llywodraeth Cymru. Bydd y Swyddfa Genedlaethol hon o fewn Llywodraeth Cymru a bydd ganddi dair swyddogaeth graidd, sef: goruchwylio a chydymffurfio â'r Fframwaith Cenedlaethol; datblygu a gweithredu'r Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol; a chefnogi gwaith y Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol.

Nododd llythyr diweddar i'r **Grŵp Trawsbleidiol ar Blant yn Ein Gofal** ragor o wybodaeth:

> The establishment of an out-ward facing National Office will enable a focus on innovation, improvement, and transformation of adult and children's services. It will build on progress already made in improving collation of social care data, developing a clearer picture of the delivery of services, and supporting the Chief Social Care Officer in championing a stronger voice for the sector.

Mae'n mynd ymlaen i ddweud y canlynol:

> This year (2024-25) will be a transitional year for the National Office for Care and Support, with the opportunity to establish the right mechanisms and ways of working needed to realise the full benefit of the National Office as it matures.

# 3. Cyfraddau gofal a chanlyniadau i blant

Mae gwaith craffu'r Senedd yn cynnwys: adroddiad mis Mai 2023 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, **Gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical**.

## 3.1. Cyfraddau gofal

Roedd **Maniffesto Mark Drakeford ar gyfer arweinyddiaeth y Blaid Lafur** yn 2018 yn dweud bod "gormod o blant yn cael eu cymryd i ffwrdd o'u teuluoedd ac i mewn i'r system gofal yng Nghymru", a nododd gynnig ar gyfer:


> Targed i bob awdurdod lleol i leihau'r nifer o blant o'r ardal honno sy'n cael eu cymryd o ofal eu teuluoedd, gan gynnwys gofal gan berthnasau.

Mynegodd awdurdodau lleol bryderon am 'dargedau' ac, mewn ymateb i **lythyr gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Pumed Senedd**, cyfeiriodd y Prif Weinidog ar y pryd atynt **yn ddiweddarach** fel 'cynllun pwrpasol ar gyfer y disgwyliadau o ran lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal, sydd wedi'i gydgynhyrchu'.

Er gwaethaf y nod hwn, **mae nifer y plant mewn gofal wedi parhau i godi**. Cynyddodd y gyfradd ofal yng Nghymru 83% rhwng 2003 a 2022, gyda mwy nag 1% o blant dan 18 oed mewn gofal ar hyn o bryd

Mae'r **briff ystadegol** gan Ymchwil y Senedd yn nodi bod 7,210 o blant yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol Cymru ar 31 Mawrth 2023, sef cynnydd o 26% ers 2014.

**Plant yn derbyn gofal ar 31 Mawrth**





Ffynhonnell: StatsCymru, **Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol, rhyw ac oedran**

Ym mis Rhagfyr 2023, cyhoeddodd Arsyllfa Cyfiawnder Teulu Nuffield ymchwil yn ymwneud ag **Deall llwybrau gofal a sefydlogrwydd lleoliadau ar gyfer babanod yng Nghymru.** Canfu fod 6,333 o fabanod yng Nghymru wedi dechrau derbyn gofal am y tro cyntaf rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2021. O'r babanod hyn, roedd 45% (2,879) yn llai na 4 wythnos oed. Roedd mwy na thraean ohonynt (38%, 2,430) yn fabanod newydd-anedig. Roedd cryn amrywiaeth yn y gyfradd o achosion o fabanod yn dod i mewn i ofal am y tro cyntaf rhwng y 22 awdurdod lleol yng Nghymru, gyda 7 awdurdod lleol â chyfraddau uwch na'r cyfartaledd o achosion, a 9 awdurdod lleol â chyfraddau is na'r cyfartaledd o achosion.

Mae ein dogfen **Plant sydd â phrofiad o ofal: Briff Ystadegol 2024** hefyd yn nodi bod cyfraddau plant sy'n derbyn gofal yn amrywio rhwng awdurdodau lleol, o 52 fesul 10,000 o'r boblogaeth dan 18 oed yn Sir Gaerfyrddin i 200 fesul 10,000 yn Nhorfaen.

## Nifer y plant o dan 18 oed ar 31 Mawrth 2023 yn derbyn gofal fesul 10,000 o'r boblogaeth; fesul ardal



## Mae cyfraddau'r plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru yn uwch na'r cyfraddau yn Lloegr

Yn 2023, roedd **116 o bob 10,000** o blant yng ngofal awdurdodau lleol Cymru o gymharu â **71 o bob 10,000** yng ngofal awdurdodau lleol yn Lloegr.

Gan gyfeirio at y cyfraddau sylweddol uwch o blant mewn gofal yng Nghymru o gymharu â Lloegr, dywedodd y Barnwr Francis, Barnwr Cyswllt Is-adran Teuluoedd Cymru, wrth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg fod hwn yn ystadegyn lletchwith. Dywedodd **hefyd**:

> There is some anecdotal evidence that some local authorities, some children's services, are expecting different standards from others, and that some judges do.

Ond yr un yw'r sail gyfreithiol yn y ddwy wlad. Mae Adran 31 o **Ddeddf Plant 1989** yn nodi'r gofynion am orchymyn gofal, a elwir yn 'feini prawf trothwy'. Gwneir y penderfyniad hwn wrth i'r llys gymhwyso'r 'rhestr wirio lles' o dan adran 1(3) o **Ddeddf Plant 1989**. Mae baich y prawf ar yr awdurdod lleol i gadarnhau bod y meini hyn yn cael eu bodloni, sef:

S31(2) Gall llys ond gwneud gorchymyn gofal neu orchymyn goruchwylio os yw'n fodlon—

1. bod y plentyn dan sylw yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol; a
2. bod y niwed, neu'r tebygolrwydd o niwed, i'w briodoli i—
3. y gofal a roddwyd i'r plentyn, neu'n debygol o gael ei roi iddo pe na bai'r gorchymyn yn cael ei wneud, nid bod yr hyn y byddai'n rhesymol disgwyl i riant ei roi iddo; neu
4. bod y plentyn y tu hwnt i reolaeth rhieni.

### Pam mae cyfraddau wedi cynyddu?

Mae ffactorau niferus yn dylanwadu ar nifer y plant sydd yng ngofal awdurdodau lleol Cymru. Mae awdurdodau lleol yn **cyfeirio at gymhlethdod cynyddol** amgylchiadau plant sy'n dod i ofal. Mae amddifadedd, camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl rhieni ac anableddau dysgu i gyd yn rhan o ddarlun cymhleth sydd wedi arwain at gynnydd yn nifer y plant sy'n cael eu derbyn i ofal. Mae cam-drin domestig yn ffactor allweddol ym mywydau 75% o famau biolegol sydd wedi

gweld un neu ragor o'u plant yn cael eu cymryd oddi arnynt yn barhaol.

Gellid dadlau bod gweithwyr cymdeithasol yn cael **eu beirniadu y naill ffordd neu'r llall** o ran plant yn mynd i mewn i ofal. Mae nifer o achosion trasig amlwg fel Logan Mwangi, Arthur Labinjo-Hughes a Star Hobson lle mae pryderon y gallai ymyrraeth gryfach gan wasanaethau asiantaethau fod wedi atal marwolaeth plentyn. Dywed Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain fod cam-drin plant ac esgeulustod yn gudd ac yn anodd eu profi a bod gweithwyr cymdeithasol yn bryderus iawn am gael pethau'n anghywir a fydd yn hynod o galed eu newid tra bod y cyfryngau a gwleidyddion mor barod i gondemnio gweithwyr cymdeithasol ac eraill pan maen nhw'n gwneud camgymeriadau.

Cyhoeddodd Bwrdd Diogelu Cwm Taf ei **Adolygiad Ymarfer Plant** 2022 yn dilyn marwolaeth drasig Logan Mwangi. Yn dilyn hynny, edrychodd **Adolygiad cyflym o drefniadau amddiffyn plant gan Arolygiaeth Gofal Cymru** ar "i ba raddau y mae'r strwythurau a'r prosesau presennol yng Nghymru yn sicrhau bod enwau plant yn cael eu gosod ar y gofrestr amddiffyn plant, ac yn cael eu tynnu oddi arni, yn briodol pan fydd tystiolaeth ddigonol yn nodi ei bod hi'n ddiogel gwneud hynny". Cyhoeddwyd canfyddiadau cyfamserol ym mis Mehefin 2023, ac yna ei **adroddiad terfynol** ym mis Medi 2023. Un o'i ganfyddiadau yw bod "dealltwriaeth ymarferwyr o'r risg o niwed sylweddol i blant yn amrywiol" ac "yn gysylltiedig â'r trosiant uchel a geir ymhlith ymarferwyr gwasanaethau plant sy'n golygu bod yn rhaid i deuluoedd feithrin ymddiriedaeth ag ymarferwyr newydd dro ar ôl tro". Gwnaeth nifer o argymhellion, gan gynnwys:

> Mae angen ymgyrch genedlaethol i wella cyd-ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o drothwyon a chanllawiau perthnasol. Dylai hyn ganolbwyntio ar ddealltwriaeth amlasiantaethol a gwneud penderfyniadau cyson wrth asesu risg.

## 3.2. Canlyniadau hirdymor i blant â phrofiad o fod mewn gofal

Prin iawn yw'r wybodaeth sydd wedi'i chyhoeddi am ganlyniadau hirdymor i blant unigol. Cyfeirir at y data sydd ar gael yn **Plant sydd â phrofiad o ofal: Briff Ystadegol 2024**.

### Mwy na 300 o bobl ifanc sy'n gadael gofal yn ddigartref mewn blwyddyn

Mae'r Fframwaith Perfformiad a Gwella ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys data ar gyfanswm y rhai sy'n gadael gofal sy'n profi digartrefedd yn ystod y flwyddyn (fel y'i diffinnir gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014) fesul awdurdod lleol. Dengys y ffigurau diweddaraf ar gyfer **2022-23** **fod 315 o bobl sy'n gadael gofal yn**

**ddigartref yn ystod y cyfnod hwnnw o 12 mis, o gymharu â 170 yn 2020-21**. Mae'r ffigurau hyn yn **cyfeirio at** bobl ifanc hyd at 25 oed a oedd yn cael cefnogaeth weithredol gan eu hawdurdod lleol fel rhai sy'n gadael gofal ar yr adeg yr adroddwyd am eu digartrefedd. Nid yw ystadegau cyhoeddedig yn dweud wrthym pa ganran yw hyn o'r boblogaeth berthnasol o bobl ifanc sy'n gadael gofal.

Roedd **llythyr diweddar gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y pryd** yn nodi ei ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y **Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru**. Cyfeiriodd at anghenion tai rhieni â phrofiad o fod mewn gofal, gan ddweud eu bod yn gallu bod "yn gymhleth, ond maent yn cael effaith sylweddol o ran a all eu plant eu hunain aros yn eu gofal". Dywedodd hefyd "y dylid creu chweched categori o'r enw 'blaenoriaeth resymol' ar gyfer pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal ni waeth beth fo'u statws digartrefedd, er mwyn eu hatal rhag mynd i mewn i'r system ddigartrefedd i gael mynediad at dai cymdeithasol" yn unol ag argymhellion **Adolygiad Grŵp Arbenigol** Llywodraeth Cymru. Dywedodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Iechyd:

> Yn ystod ein hymchwiliad, clywsom lawer o eiriau cynnes a nodwyd bwriadau da am rianta corfforaethol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Eto i gyd gymaint o weithiau clywsom yn uniongyrchol gan bobl ifanc nad yw'r rhain yn cael eu trosi'n weithredoedd pendant ac nad oeddent yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'w bywydau, hyd yn oed ar adegau o argyfwng. Yn seiliedig ar brofiad byw uniongyrchol y nifer o bobl sy'n gadael gofal yng Nghymru y cawsom y fraint o siarad â hwy, mae'n amlwg bod angen newidiadau sylweddol er mwyn i dai chwarae rhan hanfodol fel rhiant corfforaethol.

## Cyrhaeddiad addysgol


Cyhoeddwyd strategaeth Llywodraeth Cymru, **Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal**, yn 2016. Mae'n dweud:

> Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed cenedlaethol yng nghyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal trwy godi cyrhaeddiad pobl ifanc 15 oed yng Nghyfnod Allweddol 4 o drothwy cynhwysol Lefel 2 o 17% yn 2014 i 25% yn 2016 fel y nodwyd yn y cyfrifiad Plant mewn Angen.

Oherwydd bod mesurau perfformiad ysgolion wedi'u hatal yn ystod y pandemig, mae canran y plant mewn gofal sy'n cyrraedd y trothwy lefel 2 **heb ei chyhoeddi ers 2019**, er bod gan y **set ddata ddiweddaraf ar StatsCymru** ddyddiad dros dro o Chwefror 2024 ar gyfer rhyddhau data 2023. Mae Ymchwil y Senedd wedi

defnyddio'r data hanesyddol sydd ar gael ar ddeilliannau yng nghyfnod allweddol 4 a'u cymharu â'r deilliannau addysgol ar gyfer pob disgybl, ac ar gyfer y disgyblion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r siart isod o **Plant sydd â phrofiad o ofal: Briff Ystadegol 2024** yn dangos canran y plant sy'n cyflawni 5 TGAU gradd A*-C gan gynnwys Mathemateg a Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf. Mae cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yn is o gymharu â disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a phob disgybl yn 2017, 2018 a 2019.

**Canran y plant sy'n cyrraedd trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg/Cymraeg a Mathemateg yng nghyfnod allweddol 4**




Nododd adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ym mis Mai 2023 fod pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal wedi siarad yn helaeth am bwysigrwydd **ysgol fel ffactor sefydlogi yn eu bywydau**. Fodd bynnag, ar y cyfan, clywodd y Pwyllgor am brofiadau negyddol, gan gynnwys am blant yn cael eu symud yn rheolaidd o ysgol i ysgol a bod adolygiadau plant sy'n derbyn gofal yn cael eu cynnal yn ystod amser ysgol, gan achosi embaras iddynt pan fyddai gweithwyr cymdeithasol yn dod i mewn i gwrdd â nhw yn gwisgo bathodynnau swyddogol.

Cafodd y **Grant Datblygu Disgyblion** (PDG) ei ymestyn i gynnwys Plant sy'n Derbyn Gofal yn 2013-14. Fodd bynnag, telir dyraniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal i'r consortia rhanbarthol i'w defnyddio, yn hytrach na'u rhoi'n uniongyrchol i ysgolion, sef y dull ar gyfer y PDG ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

# 4. Y rhiant a'r naid/taid corfforaethol

Mae gwaith craffu'r Senedd yn cynnwys: adroddiad y Pwyllgor Deisebau ym mis Mawrth 2023, **Cefnogi rhieni sydd wedi bod mewn gofal**

Mae mwy nag un plentyn ym mhob cant yng Nghymru mewn gofal, a'r 'wladwriaeth' yw eu rhiant. Ac mae'r niferoedd wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y deng mlynedd diwethaf. Y wladwriaeth, felly, sy'n gyfrifol am ble mae'r plentyn yn byw, ei ddiogelwch, ei les emosiynol, ei iechyd a'i addysg. Yn ôl **canllawiau** Llywodraeth Cymru, "fel rhieni corfforaethol, mae'n **rhaid** i bob awdurdod lleol weithredu ar gyfer y plentyn y mae'n gofalu amdano fel y byddai unrhyw riant cyfrifol a chydwybodol yn ei wneud".

Pan fydd pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn cael eu plant eu hunain, mae'r wladwriaeth i bob pwrpas yn dod yn **'nain/taid corfforaethol'**, a chafodd eu profiadau eu harchwilio gan y Pwyllgor Deisebau ac fe'u trafodir ymhellach isod.

## 4.1. "A yw hyn yn ddigon da i'm mhlentyn fy hun?"

Mae **cod ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya** yn nodi dyletswyddau cyrff cyhoeddus perthnasol. Gan gyfeirio at rianta corfforaethol, mae'n dweud "Pan fydd plentyn yn dechrau derbyn gofal, mae ei lesiant o ddiddordeb i holl aelodau etholedig a swyddogion yr awdurdod lleol, fel rhieni corfforaethol, a rhaid iddynt ystyried yr egwyddorion canlynol wrth ymgysylltu â'r plentyn a gwneud unrhyw benderfyniadau yn ymwneud ag ef" yn cynnwys **"a yw hyn yn ddigon da i'm mhlentyn fy hun?"**

Nododd llythyr diweddar i'r **Grŵp Trawsbleidiol ar Blant yn Ein Gofal** ragor o wybodaeth am **Siarter Rhiant Corfforaethol gwirfoddol Llywodraeth Cymru, o'r enw "Addewid Cymru",** a lansiwyd ym mis Medi 2022. Yn ôl y llythyr, ar 2 Ionawr 2024, roedd 25 o Rieni Corfforaethol wedi ymrwymo i'r Siarter, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Gweinidogion Cymru.

## 4.2. Rhoi cartref sefydlog i blant

Roedd bron i dri chwarter (74%, neu 5,350) y plant a oedd yn derbyn gofal wedi cael un lleoliad yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023. Mae hyn yn golygu bod 26% o'r plant a oedd yn derbyn gofal wedi cael dau leoliad neu fwy yn y 12 mis blaenorol. O'r plant hynny, roedd 1,190 (neu 17% o'r plant a oedd yn derbyn gofal) wedi cael dau leoliad ac roedd 670 neu 9% wedi cael tri lleoliad neu ragor.

### Nifer y lleoliadau yn ystod y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2023




Ffynhonnell: StatsCymru, **Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol, nifer y lleoliadau yn ystod y flwyddyn a mesur**

Yn ôl yr adroddiad '**Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal**' y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg:

> Yn aml, byddai'r symudiadau hyn yn digwydd ar fyr rybudd, neu'n gwbl ddirybudd (dywedodd un fenyw ifanc wrthym ei bod hi bob amser wedi cadw sach gefn fach ar waelod ei gwely gyda'i holl hanfodion ynddo – er mwyn iddi allu cydio ynddi a gadael ar unwaith), ac weithiau yn bell i ffwrdd yn daearyddol. Mewn llawer o achosion, roedd hyn yn cynnwys newid ysgolion a grwpiau ffrindiau a oedd newydd eu sefydlu. Dywedodd y bobl ifanc, a'r staff y bu i ni siarad â nhw, fod hyn yn eu hansefydlogi ac yn drallodus iddynt, yn enwedig gan eu bod eisoes wedi profi'r trawma o gael eu symud oddi wrth eu teuluoedd geni.

Canfu'r adroddiad hefyd fod plant yn aml yn cael eu lleoli ymhell o'u cartrefi neu eu lleoliadau blaenorol gan nad oedd unrhyw leoliadau o ansawdd yn eu hardal leol. Roedd hyn hefyd yn golygu defnyddio lleoliadau y tu allan i'r ardal sy'n dod ar gost llawer uwch. Mae Adroddiad Blynyddol 2022-23 Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn nodi goblygiadau'r diffyg hwn, gan ddweud:

> Oherwydd hyn, mae awdurdodau lleol yn gorfod gwneud trefniadau, yn aml ar fyr rybudd, i blant dderbyn gofal mewn gwasanaethau nad ydynt wedi'u cofrestru i ddarparu gofal. Mae'r gwasanaethau hyn yn gweithredu'n anghyfreithlon ac nid yw'r mesurau diogelu sy'n gysylltiedig â chofrestriad yn berthnasol iddynt. Mae hyn yn peri pryder penodol pan fydd plant yn byw mewn gwasanaethau anghofrestredig ar ôl cael eu hamddifadu o'u rhyddid gan y llys. Mae gan blant sy'n destun gorchmynion Amddifadu o Ryddid anghenion cymhleth ac mae angen lefelau uchel o oruchwyliaeth a gofal medrus arnynt. Rydym yn cydnabod y camau sylweddol y mae awdurdodau lleol yn eu cymryd i sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyletswydd statudol i ddarparu gofal, cymorth a llety i'r plant yn eu gofal.

## 4.3. Lleoliadau anghyfreithlon a 'Gorchmynion Amddifadu o Ryddid'

Ym mis Medi 2023, **dywedodd** y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, Julie Morgan AS, wrth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y bydd swyddogion yn cynnal ymarfer dadansoddi i bennu nifer y gorchmynion amddifadu o ryddid a ddefnyddiwyd dros y 24 mis diwethaf, a bod:

- chwe gorchymyn amddifadu o ryddid lle mae pobl ifanc yn cael eu rhoi mewn lleoliadau anghofrestredig ar hyn o bryd, a
- bod 30 o gartrefi gofal neu wasanaethau plant yn gweithredu heb gofrestru, gyda 29 o'r rhain yn cael eu gweithredu gan yr awdurdodau lleol ac un yn cael ei weithredu gan ddarparwr preifat.
- Er na chyhoeddir data rheolaidd, dywedir bod y defnydd o lety heb ei reoleiddio ar ei isaf ers dechrau casglu data yn 2016-17.

### Lleoliadau anghofrestredig

Mae lleoli plant mewn gofal mewn llety anghofrestredig yn anghyfreithlon yng Nghymru a Lloegr. 'Llety anghofrestredig' yw'r term a ddefnyddir yn eang i ddisgrifio llety lle mae'r darparwr yn darparu 'gofal' i blentyn dan 18 oed, ond nad yw wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru. Serch hynny, clywodd y Pwyllgor fod nifer cynyddol o blant yn byw mewn lleoliadau anghofrestredig. Yn 2023, **dywedodd** AGC am y lleoliadau hyn:

> ...nid oes ganddynt y mesurau diogelu ar waith sydd gan wasanaethau cofrestredig. Yn aml mae awdurdodau lleol yn gweithredu'r gwasanaethau hyn yn uniongyrchol, gan adleoli eu staff eu hunain iddynt neu ddefnyddio gweithwyr asiantaeth. Mae llety yn cynnwys llety AirBnB sydd, mewn rhai achosion, wedi golygu bod plant wedi gorfod symud sawl gwaith o'r naill eiddo i'r llall. Ar adegau, mae'r lleoliadau hyn wedi bod y tu allan i ardal leol y plentyn ac mae llawer o leoliadau na allant ddiwallu eu hanghenion therapiwtig a/neu ofal. Ym mhob achos mae AGC yn ystyried **a yw'r trothwy ar gyfer cynnal ymchwiliad troseddol ac erlyn wedi'i fodloni** gan gydnabod, ar yr un pryd, ddyletswydd yr awdurdod lleol i ofalu am y plentyn.

Ym mis Hydref 2023, cyhoeddodd AGC ei hadroddiad ar **Gartrefi gofal i blant sy'n gweithredu heb gofrestriad**. Un o'i ganfyddiadau oedd, "yng Nghymru, yn wahanol i Loegr, caiff y mwyafrif o'r gwasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestriad eu darparu'n uniongyrchol gan yr awdurdodau lleol, nid darparwyr y sector annibynnol."

### Gorchmynion Amddifadu o Ryddid

Gall plant gael eu **hamddifadu o'u rhyddid** am resymau lles neu oherwydd bod risgiau i'w diogelwch. Yn sgil prinder lleoliadau, a gostyngiad yn y lleoliadau sydd ar gael, pan na ellir dod o hyd i leoliad diogel addas, gall yr Uchel Lys ddefnyddio ei bwerau i amddifadu'r plentyn o'i ryddid drwy **Orchymyn Amddifadu o Ryddid**. Clywodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg dystiolaeth anecdotaidd fod hyn yn arbennig o gyffredin yn y Gogledd (gweler yr erthygl **Judge pleads for 'scandal' of childrens care to be wide known**.)

Cyhoeddwyd **Canllawiau Ymarfer newydd ar sut mae'r Llys yn defnyddio lleoliadau anghofrestredig** a bu newidiadau diweddar i'r ffordd mae llysoedd yn ymdrin â Gorchmynion Amddifadu o Ryddid oherwydd y nifer fawr o geisiadau sy'n ymwneud â phlant.

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi ceisio pennu faint o blant yng Nghymru sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid a phwy sy'n goruchwylio hyn, a **dywedodd** yr Arolygiaeth Gofal wrth y Pwyllgor ym mis Mawrth 2024:

> [...we don't have an overview of every child that's on a deprivation of liberty order, which is why we are now asking [...]providers have to notify us, we now are asking providers to notify us where a child is living in a children's home who has a deprivation of liberty order in place. That's very recent, so until that beds in we won't be able to report on it, but we hope we will be able to in future.]

## 4.4. Cefnogi plant yn yr ysgol

Mae adrannau blaenorol o'r briff hwn yn cynnwys gwybodaeth am gyrhaeddiad addysgol, sy'n dangos bod cyflawniad academaidd plant â phrofiad o fod mewn gofal wedi bod erioed yn sylweddol is na chyflawniad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a phob disgybl, ac mae'n dal i fod felly.

Yn fwy eang o ran y cyfraniad y mae ysgolion yn ei wneud, mae adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg fis Mai 2023 yn nodi bod pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn siarad yn helaeth am bwysigrwydd **ysgol fel ffactor sefydlogi yn eu bywydau**. Fodd bynnag, ar y cyfan clywodd y Pwyllgor am brofiadau negyddol cael eu symud yn rheolaidd o ysgol i ysgol a bod adolygiadau plant sy'n derbyn gofal yn cael eu cynnal yn ystod amser ysgol, gan achosi embaras iddynt pan fydd gweithwyr cymdeithasol yn dod i mewn i gwrdd â nhw yn gwisgo bathodynnau.

## 4.5. Iechyd meddwl plant

Dywedodd adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ym mis Mai 2023 fod llawer o blant yn dod i ofal â straen a thrawma wedi trawma, nad yw'n cael ei drin yn aml oherwydd yr heriau niferus sy'n bodloni'r trothwyon meddygol diffiniedig ar gyfer CAMHS arbenigol. Dywedodd:

> Roedd unfrydedd bron iawn nad yw'r gwasanaethau iechyd meddwl presennol yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Clywsom bryderon a chanfyddiadau am restrau aros hir, trothwyon a meini prawf nad ydynt yn cydnabod y trawma y mae pobl ifanc â phrofiad o ofal wedi mynd drwyddo, trawsnewidiadau gwael o wasanaethau iechyd meddwl plant i wasanaethau iechyd meddwl oedolion, a cham-labelu materion iechyd meddwl fel problemau ymddygiad. . Clywsom fod gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn "enbyd" a bod y system "wedi torri".

Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

> Clywsom alwadau niferus a mynych gan bobl ifanc, sefydliadau ac eraill a fynnai y dylai plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal fod â'r hawl i gymorth therapiwtig.

Gwrthododd Llywodraeth Cymru argymhelliad dilynol y Pwyllgor sef:

> Fel rhan o'r diwygiadau ymbarél i rianta corfforaethol (gweler diwygiad radical 3), dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno **deddfwriaeth sy'n rhoi i bob plentyn sydd â phrofiad o fod mewn gofal yr hawl i gael gwasanaeth cymorth iechyd meddwl therapiwtig arbenigol**. Dylai fod ganddynt yr hawl statudol i gael eu hanghenion wedi'u hasesu yn gyfnodol ac i'r anghenion hynny gael eu diwallu. Dylai'r gwasanaeth hwnnw fod ar gael o'r pwynt lle maent yn cael eu tynnu oddi ar eu rhieni geni i o leiaf y pwynt lle maent yn peidio â chael eu diffinio fel ymadawyr gofal. Dylai fod ar wahân ac yn annibynnol ar y gwasanaethau iechyd meddwl presennol, a dylai arbenigo mewn cymorth iechyd meddwl sy'n ystyriol o drawma.

## 4.6. Bod yn 'nain/taid corfforaethol'

Mae **adroddiad** y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cyfeirio at "y cylch gofal", gan ddweud eu bod wedi'u "harswydo" o ddeall y bydd y wladwriaeth yn cymryd o leiaf un plentyn oddi ar chwarter y bobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Roedd hyn yn dilyn gwaith craffu manwl ar y mater hwn gan y **Pwyllgor Deisebau**, fel y nodwyd yn gynharach yn y briff hwn: **"Nid oedd y dystiolaeth a gawsom yn hawdd gwrando arni": Adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar rieni â phrofiad o fod mewn gofal.**

# 5. Heriau'r gweithlu, pwysau ariannol a data

Mae gwaith craffu'r Senedd yn cynnwys: adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Bumed Senedd sef, **Plant â phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal** (Tachwedd 2018) ac adroddiad Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Chweched Senedd sef, **Gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical.**

## 5.1. Y gweithlu

### Swyddi gwag ym maes gwaith cymdeithasol plant

Yn ystod ei ymchwiliad i **ddiwygio radical**, cyfeiriodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at ddarlun pryderus iawn o'r heriau sy'n wynebu'r gweithlu gwasanaethau plant, gan gynnwys y ffaith bod **swyddi gwag** wedi cynyddu 38% yn y flwyddyn rhwng 2021 a 2022 – a oedd yn golygu, adeg casglu tystiolaeth, bod **639 o swyddi gwag mewn timau gwaith cymdeithasol plant ledled Cymru**. Gwyddom hefyd:

- Ym mis Mawrth 2024, roedd y data diweddaraf yn dangos **bod 11.5% o'r holl weithwyr cymdeithasol** (gweithwyr cymdeithasol plant ac oedolion) yn gweithio i asiantaeth; ac
- Ym mis Medi 2023, roedd **17.5% o weithwyr cymdeithasol gwasanaethau plant** yn gweithio i asiantaeth.

Mae **data rheolaidd** yn cael ei gasglu a'i gyhoeddi am y gweithlu gofal cymdeithasol plant yn Lloegr, ond nid yw'r un data ar gael yng Nghymru.

### Llwythi achosion

**Dywedodd y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol wrth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg** mai'r diwygiad mwyaf radical y gellid ei wireddu yn y maes hwn yw lleihau llwyth gwaith ein gweithwyr cymdeithasol. Dywedodd adroddiad dilynol y Pwyllgor fod "y rhan fwyaf o bobl ifanc a llawer o weithwyr proffesiynol y trydydd sector o blaid deddfwriaeth a oedd yn gosod cap ar lwythi achosion gweithwyr cymdeithasol", gan esbonio:

> Clywsom dro ar ôl tro fod llwythi achosion gweithwyr cymdeithasol gwasanaethau plant yn rhy fawr. Dywedodd pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal wrthym dro ar ôl tro eu bod yn cael trafferth cael y cymorth angenrheidiol gan eu gweithwyr cymdeithasol gan fod llwythi achosion mawr yn golygu nad oeddent yn gallu treulio digon o amser gyda phob plentyn neu berson ifanc unigol.

Argymhellodd y dylid deddfu i osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gyfrifo'r llwythi achosion diogel uchaf ar gyfer gweithwyr cymdeithasol gwasanaethau plant, ac i gymryd pob cam rhesymol i gynnal y lefelau uchaf hynny ar gyfer yr holl weithwyr cymdeithasol plant. **Gwrthododd** Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn.

### Trosiant staff

Un o'r pethau mwyaf sylfaenol yr adroddodd y Pwyllgor arno yn ystod ei ymchwiliad 'diwygio radical' oedd y tarfu a'r gofid enfawr y mae plant, pobl ifanc a theuluoedd yn eu hwynebu yn sgil **newid gweithwyr cymdeithasol yn aml**, a achosir yn rhannol gan drosiant staff. Dywedodd ymarferwyr o asiantaethau eraill wrth y Pwyllgor hefyd fod trosiant staff yn achosi problemau enfawr. Dywedodd gofalwyr maeth yng Nghymru mai parhad a chapasiti staff gwaith cymdeithasol oedd yr un newid mwyaf yr hoffent ei weld i wella gofal maeth.

Mae'r Adolygiad ar y cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA) ym **Mhowys** (Hydref 2023) yn dweud:

> Yn yr un modd â llawer o ardaloedd ledled Cymru, mae'r gallu i recriwtio a chadw aelodau allweddol o staff yn effeithio ar drefniadau diogelu plant. Mae'r galw uchel am wasanaethau a chymhlethdod cynyddol anghenion plant a theuluoedd yn ychwanegu at hyn.

Mae JICPA 2023 ar gyfer **Pen-y-bont ar Ogwr** hefyd yn dweud:

> Yn yr un modd â llawer o ardaloedd ledled Cymru, mae recriwtio a chadw aelodau allweddol o staff yn effeithio ar drefniadau diogelu plant. Mae lefelau uchel o alw a chymhlethdod cynyddol anghenion plant a theuluoedd yn ychwanegu at hyn. Mae sefyllfa'r gweithlu gwasanaethau cymdeithasol dal yn fregus. Mae prinder gweithwyr cymdeithasol a marchnad gystadleuol wedi arwain at fwy o ddibyniaeth ar weithwyr cymdeithasol o asiantaethau.

Rhan o'r ateb, yn ôl y Pwyllgor, oedd i'r ddeddf newydd gyfrifo'r uchafswm llwythi achosion ar gyfer gweithwyr cymdeithasol plant. Dywedodd hefyd y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu deddf newydd ochr yn ochr â chynllun digonolrwydd y gweithlu cynhwysfawr. **Gwrthododd** Llywodraeth Cymru y ddau argymhelliad hyn.

## 5.2. Pwysau ariannol ar wasanaethau plant

Daw'r rhan fwyaf o wariant cyhoeddus ar ofal cymdeithasol, diogelu a phrofiad gofal plant o'r Grant Cynnal Refeniw, sef y ffynhonnell unigol fwyaf o gyllid refeniw

ar gyfer awdurdodau lleol sydd yn y portffolio Llywodraeth Leol, a oruchwylir gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai, Llywodraeth Leol a Chynllunio. Fodd bynnag, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a'r Gweinidog Gofal Cymdeithasol, sy'n gyfrifol am ganlyniadau ar gyfer y grŵp hwn o blant. Mae yna hefyd rai grantiau penodol yn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, megis y Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy a'r Grant Plant sy'n Derbyn Gofal.

**Rhybuddiodd** arweinydd un o gynghorau Cymru ym mis Tachwedd 2023 mai mater o amser yw hi cyn i un o awdurdodau lleol Cymru fynd yn fethdalwr. Roedd ei **dystiolaeth ysgrifenedig** i Bwyllgor Cyllid y Senedd (ar y cyd â Chymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol) yn cyfeirio at 2023-24 ac yn nodi bod £41 miliwn o'r gorwariant o £219 miliwn yn y flwyddyn honno'n deillio'n uniongyrchol o'r pwysau ariannol presennol ym maes gofal cymdeithasol plant. Roedd yn cyfeirio hefyd at y cynnydd parhaus yn nifer y plant sydd angen gofal, ac mae'n nodi'r dadansoddiad hwn o'r pwysau ariannol ar wasanaethau cymdeithasol ar gyfer 2023-24:

| Pwysau'r flwyddyn gyfredol | 2023-24 |
|---|---|
| | £000s |
| **Pwysau Chwyddiant Tâl** | 5,281 |
| **Pwysau chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â thâl** | 3,866 |
| **Pwysau costau comisiynu** | 13,201 |
| **Pwysau sy'n gysylltiedig â galw – Oedolion** | 45,683 |
| **Pwysau sy'n gysylltiedig â galw – Plant** | 40,730 |
| | |
| **Cyfanswm Cyffredinol** | £108,761 |

Ffynhonnell: WLGA/SWT Survey September 2023

Mae CLlLC yn dweud bod lleoliadau preswyl i blant yn cyfrif am dros £26 miliwn o gyfanswm y pwysau ariannol ar gyfer 2023-24 ac mae'n mynd ymlaen i ddweud y canlynol:

> [...]Weekly costs in excess of £20,000 per week for placements were identified and one local authority reported that their children's services budget has increased by £11m (56%) over the last 3 years, with specialist placement costs increasing by £6.6m (44%) over the same period.
>
> Another highlights that despite a £9.5m budget build into their placements budget for 23/24 (17% equivalent), in month 6 the council was still recording an £8.5m budget overspend, primarily due to the cost of residential placements. Here placements made during the year are proving more costly than historic placements. Factoring in fee uplifts and price differentials in new placements, residential placements price inflation from 1 April 2023 to 31 September 2023 was 9%, at a cost of £2m to this particular council

## 5.3. Data

Mae'r **Plant sydd â Phrofiad o Ofal: Briff Ystadegol 2024** wedi'i ddiweddaru yn nodi bod adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, **Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal**, ac adroddiad y Pwyllgor Deisebau, Cefnogi rhieni sydd wedi bod mewn gofal, wedi codi pryderon am faint o ddata sydd ar gael. Mae Pennod 2 o adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (tudalennau 52-58) yn nodi ei ganfyddiadau am gasglu data, gan ddweud:

> Mae'r diffyg data cadarn sydd wedi'i gasglu am wahanol agweddau ar y system ofal, ei gweithlu, a phlant sydd â phrofiad o fod mewn gofal wedi bod yn thema gyson ar draws ein prosesau casglu tystiolaeth.

Mae'r adroddiad yn rhestru'r hyn y mae'n cyfeirio ato fel y "bylchau mwyaf arwyddocaol yn y data a gyhoeddwyd" (tudalennau 50-52) ac yn awgrymu bod "llawer o'r data hwn yn cael ei gyhoeddi a'i gasglu'n rheolaidd yn Lloegr". Mae'r adroddiad hefyd yn cyfeirio at dudalennau 14-15 o adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn 2019, sef **Dadansoddiad o'r Ffactorau sy'n Cyfrannu at y Cyfraddau Uchel o Ofal yng Nghymru**. Mae'n cynnwys tabl o ddata tebyg am blant sy'n derbyn gofal sy'n cael ei gasglu a'i gyhoeddi ledled y DU.

# 6. Tlodi plant

Mae gwaith craffu'r Senedd yn cynnwys: adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol (Tachwedd 2023) sef, **Amser rhoi diwedd ar dlodi plant: sut y gall Cymru wneud yn well**.

Mae maniffesto'r Prif Weinidog newydd yn dweud ei fod yn benderfynol y bydd yn rhoi **dechrau da i bob plentyn yng Nghymru**, waeth beth fo'i gefndir, ac y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fynd i'r afael â thlodi plant. Mae'n dweud y bydd Llywodraeth Cymru yn adnewyddu ei ffocws ar 1,000 o ddiwrnodau cyntaf bywyd plentyn.

Wrth gyhoeddi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar 16 Ebrill, **dywedodd** y Prif Weinidog**:**

> …bydd y frwydr i godi plant allan o dlodi wrth wraidd cenhadaeth y Llywodraeth Cymru hon. Ni ddylai unrhyw blentyndod ddechrau drwy gael ei ddifetha gan dlodi. Byddwn ni'n gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau y gall plant dyfu i fyny yn teimlo'n hapus ac yn obeithiol am eu dyfodol.

## 6.1. Ystadegau tlodi plant

Ystyrir bod plentyn mewn tlodi cymharol os yw incwm yr aelwyd y mae'n byw ynddi yn disgyn yn is na 60% o ganolrif y DU (sef y gwerth canol mewn rhestr o rifau sydd wedi'u trefnu o'r lleiaf i'r mwyaf). Dyma'r mesur tlodi plant a ddefnyddir yn fwyaf cyffredin. Mae'r **ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU** yn dangos y canlynol, ar ôl i gostau tai gael eu hystyried:

- Dros y cyfnod 2020-21 i 2022-23, roedd 29% o'r plant a oedd yn byw yng Nghymru mewn tlodi incwm cymharol, sydd ychydig yn is na'r ffigur ar gyfer y DU, sef 30%.
- Yn 20220-21 i 2022-23, roedd canran y plant a oedd yn byw yng Nghymru a oedd yn byw mewn tlodi incwm cymharol yn is nag yn chwech o'r naw rhanbarth yn Lloegr, ond yn uwch nag yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- Plant yn gyson yw'r grŵp oedran sydd wedi bod **fwyaf tebygol o fod mewn tlodi** drwy gydol datganoli, fel sydd wedi bod yn wir am wledydd eraill y DU.

## 6.2. Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru

Ar 23 Ionawr, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **Strategaeth Tlodi Plant**. Mae'r strategaeth hon "yn pennu cyfeiriad camau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi plant dros y degawd nesaf neu fwy". Mae gan y strategaeth bum amcan:

- lleihau costau a gwneud y gorau o incwm teuluoedd.
- creu llwybrau allan o dlodi fel bod plant a phobl ifanc a'u teuluoedd yn cael cyfleoedd i wireddu eu potensial.
- cefnogi llesiant plant a'u teuluoedd a sicrhau bod gwaith ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru yn darparu ar gyfer plant sy'n byw mewn tlodi, gan gynnwys y rheini â nodweddion gwarchodedig, fel y gallant arfer eu hawliau a sicrhau canlyniadau gwell.
- sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y bobl a'r gwasanaethau sy'n rhyngweithio â nhw ac yn eu cefnogi, a herio'r stigma sy'n gysylltiedig â thlodi.
- sicrhau bod gwaith trawslywodraethol effeithiol ar lefel genedlaethol yn arwain at gydweithio cryf ar lefel ranbarthol a lleol.

Wrth graffu ar **Strategaeth Tlodi Plant Ddrafft** Llywodraeth Cymru **clywodd Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd alwadau** gan amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys y Comisiynydd Plant, Sefydliad Bevan, Dr Rhian Croke o'r Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant, a'r rhai a fynychodd ei sesiwn rhanddeiliaid. Roeddent yn galw am **i Lywodraeth Cymru fabwysiadu dull llawer mwy uchelgeisiol o fynd i'r afael â thlodi plant**. Er enghraifft, **dywedodd Sefydliad Bevan** fod angen symud tuag at drechu tlodi a chanolbwyntio ymdrechion ar y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi plant. Yn yr un sesiwn **disgrifiodd** y Comisiynydd Plant ddull Llywodraeth Cymru fel un rhy besimistaidd, gan ddweud:

> …it just doesn't sound to children and young people like we really have much faith in our own ability to even deliver the aspirations that are in the strategy; it sounds like a very defeatist approach, where we're focusing more on what we can't do and why

Fel y soniwyd uchod, mae'r Prif Weinidog newydd wedi dweud y bydd Llywodraeth Cymru yn adnewyddu ei ffocws ar y 1,000 o ddiwrnodau cyntaf ym mywyd plentyn. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru **yn tynnu sylw at** fod "tystiolaeth ryngwladol gref yn dangos bod y 1,000 diwrnod cyntaf – yn ystod beichiogrwydd a hyd at ail ben-blwydd plentyn – yn amser tyngedfennol". Mae'n dadlau bod **rhaid i ymdrechion i leihau anghydraddoldebau "ddechrau cyn gynted â phosibl er**

**mwyn cael y siawns orau o lwyddo**”. Fodd bynnag, **dywedodd Coleg Brenhinol y Meddygon** nad oedd digon o ffocws ar y 1,000 o ddiwrnodau cyntaf ym mywyd plentyn yn Strategaeth Tlodi Plant Ddrafft Llywodraeth Cymru, a galwodd am i effaith tlodi ar fabanod a phlant bach gael ei hystyried yn fanylach o lawer.

## 6.3. Targedau a monitro

Yn flaenorol, roedd gan Lywodraeth Cymru darged i ddileu tlodi plant erbyn 2020, ond **dilëodd y targed hwn yn 2016**, gan ddweud:

> Roedd ein huchelgais i ddileu tlodi plant (a ddiffinnir yn nhermau'r mesur incwm cymharol) erbyn 2020 yn dibynnu'n fawr ar amgylchiadau economaidd ehangach y DU ac rydym yn cydnabod na fyddwn yn gallu cyflawni hynny'n awr.

Yn ystod **ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i dlodi plant**, thema allweddol a ddaeth i'r amlwg o dystiolaeth y Pwyllgor oedd **yr angen i Lywodraeth Cymru gyflwyno targedau i ganolbwyntio sylw ar leihau tlodi plant**, gyda sefydliadau'n anniddig iawn ynghylch absenoldeb targedau yn y Strategaeth Tlodi Plant Ddrafft. Dywedodd Chris Birt, Cyfarwyddwr Cyswllt ar gyfer yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, Sefydliad Joseph Rowntree, **wrth y Pwyllgor** ei fod o'r farn bod cyflwyno targedau tlodi plant yn yr Alban wedi gorfodi Llywodraeth yr Alban yn y blynyddoedd diwethaf i gymryd camau sylweddol, megis taliad plant yr Alban, i fynd i'r afael â thlodi plant. Dywedodd fod cael nifer cyfyngedig o dargedau yn helpu llywodraethau i flaenoriaethu ac yn gallu helpu i ganolbwyntio meddyliau pobl.

**Argymhellodd y Pwyllgor** y dylai Llywodraeth Cymru osod targedau interim a rhai tymor hwy ar gyfer lleihau tlodi plant, gan ddysgu o'r dulliau a ddefnyddir mewn gwledydd eraill fel yr Alban a Seland Newydd. Dylai'r rhain anelu at ostyngiadau uchelgeisiol a realistig yn nifer y plant mewn tlodi cymharol, tlodi absoliwt, amddifadedd materol a thlodi parhaus.

Mae Llywodraeth Cymru **wedi penderfynu mabwysiadu dull gwahanol**. Mae'n ystyried mai'r ffordd fwyaf effeithiol o weithredu targedau yw "drwy ddull cydgysylltiedig ar draws pob lefel lle caiff pwerau perthnasol eu dal". Yn hytrach, mae Llywodraeth Cymru wedi dewis datblygu fframwaith yn seiliedig ar ystod o fesurau, **gan geisio cyngor ymchwil annibynnol gan yr Athro Rod Hick** i fwrw ymlaen â hyn.

I gyd-fynd â chyhoeddi'r Strategaeth Tlodi Plant, nododd y Comisiynydd Plant a 13 o sefydliadau hawliau plant eraill **eu pryderon** ym mis Ionawr 2024 am ddull gweithredu arfaethedig Llywodraeth Cymru:

Fel sefydliadau hawliau plant, a llawer ohonym hefyd yn aelodau o grŵp Cyfeirio Allanol y Llywodraeth ar gyfer y strategaeth, rydym yn siomedig iawn nad yw Gweinidogion wedi gwrando ar ein galwadau am gynllun gweithredu cadarn gyda thargedau mesuradwy..

Rydym wedi cael addewid o fframwaith monitro, ond nid ydym wedi cael unrhyw syniad pryd y bydd hwn ar waith na beth fydd yn ei gynnwys. Tan hynny, ni fyddwn yn gwybod a yw arian cyhoeddus sy'n cael ei wario yng Nghymru yn cyrraedd y plant hynny y mae eu bywydau'n cael eu heffeithio mor ddifrifol.